

Siarad Gwrandu Ailosod Gwella: Cynhadledd gwrth-hiliaeth ar gyfer sectorau theatr a dawnys y DU.

Cyflwynwyd gan Inc Arts mewn partneriaeth â Society of London Theatre (SOLT) ac UK Theatre

Adroddiad Gwerthuso – 9 Ebrill 2021

Ysgrifennwyd gan Amanda Parker, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Inc Arts

Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael hefyd.

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad: Cyd-destun	2
Amcanion	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
Proses ddatblygu	3
Rhan 1: Siarad-Gwrandu	4
Methodoleg	4
Rhan 2: Gwrandu-Ailosod	5
Methodoleg	5
Rhan 3: Ailosod-Gwella	6
Pwyntiau Allweddol a Drafordwyd a Materion a Godwyd	6
Dod yn Rhan	7
Symud Ymlaen	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
Gofal	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
Arweinyddiaeth	<i>Error! Bookmark not defined.</i>
Beth arall?	8
Mae'r adlewyrchiadau a rannwyd yn yr adran hon yn cynnwys y canlynol:	8
Dadansoddiad o'r Broses: Rhan Un: Siarad-Gwrandu	8
Adlewyrchu ar y Cynnwys a'r Ddarpariaeth	9
Presenoldeb	11
Adolygu'r Canlyniadau	12
Adborth o Sesiwn 1: Pa agwedd ar y sesiwn oedd o werth mwyaf i chi?	13
Adborth o Sesiynau 2 a 3	14
Adborth o Sesiwn 3	14
Rhan 3: Ailosod-Gwella: beth wnaeth pobl ymrwymo iddo ar y diwrnod?	15

Camau gweithredu ar gyfer y sectorau theatr a dawns17

Cyllideb a chodi arian Error! Bookmark not defined.

Diolch 19

Cyflwyniad: Cyd-destun

Nid yw hiliaeth yn newydd, ac nid yw'r ymrwymiad cyhoeddus i greu newid cadarnhaol yn newydd chwaith.

Mae'r ymgyrchu yn 2020 wedi'i adeiladu ar waith canrifoedd o eiriolaeth dros hawliau dynol a sifil. Rydym yn cydnabod nad yw'r gwaith sy'n digwydd heddiw yn bosibl heb gyflawniadau'r rhai sydd wedi bod o'n blaen.

Ym mis Mai 2020, hoeliodd llofruddiaeth George Floyd yn yr UD sylw'r byd ar hiliaeth systemig a sefydliadol byd-eang. Mae cannoedd o George Floyds, a Breonna Taylors. Mae cyrff ac ysbryd yn cael eu lladd drwy hiliaeth.

Drwy gydol haf 2020, rhannodd arweinwyr sectorau theatr a dawns y DU ddatganiadau cyhoeddus o undod â phobl dduon ledled y byd ar draws y cyfryngau cymdeithasol a gwnaed yn glir ddyhead i gymryd camau gweithredu cadarnhaol, gwrth-hiliol.

Profodd y bobl dduon, Asiaidd ac ethnig amrywiol sy'n gweithio yn y sectorau theatr a dawns anghytgord casgliadol: mynegodd pobl greadigol y gwahaniaeth enfawr rhwng y datganiadau o fwriad a wneir gan arweinwyr a lleoliadau celfyddydol a diwylliannol, a realiti byw eu profiadau eu hunain o hiliaeth yn y sector.

Nododd arweinwyr y sector nad ydynt yn amrywiol a'r gweithlu celfyddydau ethnig amrywiol fwlch mawr o ran dealltwriaeth: rhwng y profiad byw o hiliaeth, a chyfrifoldeb unigolion a'u cyfraniad wrth achosi a chynnal hiliaeth systemig.

I'r rhai sydd â phrofiad o hiliaeth, daeth pandemig haf 2020 a'r cyfyngiadau symud dilynol â mynegiant byd-eang o alar a thrawma o ganlyniad i brofi hiliaeth. I'r rhai heb brofiad byw o hiliaeth, roedd y cyfyngiadau symud yn cynnig cyfle am adlewyrchu personol ac yn tynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a rennir a dysgu pellach.

Ym mis Tachwedd 2020, mynychodd 3,000 o arweinwyr a gweithlu sectorau theatr a dawns y DU gynhadledd gwrth-hiliaeth Siarad-Gwrando-Ailosod-Gwella.

Dyfeisiwyd y gynhadledd gan bobl â phrofiad byw o hiliaeth ac roedd wedi'i hanelu at bawb sy'n gweithio ym maes y celfyddydau.

Roedd y gynhadledd yn cynnwys 3 sesiwn: Rhan 1: Siarad-Gwrando, Rhan 2: Gwrando-Ailosod a Rhan 3: Ailosod-Gwella, ac fe'i cynhaliwyd ddydd Iau 29ain Hydref, dydd Mawrth 3ydd, 10fed a 24ain Tachwedd 2020.

Cyflwynwyd y gynhadledd gan Inc Arts mewn partneriaeth â'r Society of London Theatre (SOLT) ac UK Theatre.

Mewn undod ac i gynnig cefnogaeth, cynigiodd amrywiaeth o sefydliadau, cyrff diwydiant ac unigolion gefnogi'r gynhadledd hon fel partneriaid, a gyda'i gilydd cyfrannwyd £46,000 ganddynt i alluogi i'r gynhadledd gael ei chynnal.

Y prif noddwyr oedd SOLT/UK Theatre, Tali Pelman, Dear Evan Hansen, Ambassador Theatre Group (ATG) a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Hefyd, Noddwyr y Gynhadledd oedd Community Leisure UK, Creu Cymru, Delfont Mackintosh Theatres, Federation of Drama Schools, Federation of Scottish Theatre, One Dance UK a'r Theatres Trust.

Partneriaid y Gynhadledd oedd yr Arts Marketing Association (AMA), yr Independent Theatre Council (ITC) a The Musician's Union (The MU).

Amcanion

Dyma amcanion y gynhadledd

- Cynorthwyo gyda deall y ffactorau sy'n effeithio ar ymgysylltu cynhwysol
- Cynorthwyo gyda deall y swyddogaethau mae unigolion a sefydliadau yn eu chwarae wrth hyrwyddo a chadarnhau niwed hiliol
- Sicrhau dealltwriaeth i'r sectorau theatr a dawns o'r hyn y gallent ei wneud i hwyluso ymgysylltu llawn â gweithwyr ethnig amrywiol er mwyn iddynt allu cyflawni eu llawn botensial
- Darparu lle i'r rhai y mae hiliaeth yn effeithio arnynt rannu eu profiadau gyda'r bwriad o lywio newid
- Creu cyfle i arweinwyr y sectorau theatr a dawns ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn agored â mynd i'r afael â hiliaeth yn y sector
- Dod â'r sectorau theatr a dawns at ei gilydd mewn moment o undod i adlewyrchu ar faterion hiliaeth yn eu sectorau penodol a dechrau proses o weithredu gwrth-hiliol ar y cyd ar draws y sector.

A thrwy hyn, amcan tymor hwy a chanlyniad tymor hwy y gynhadledd yw:

- Creu gwir newid drwy ganolbwyntio ar gymhwyso ymarferol ar gynhwysiant ac amrywiaeth.

Proses ddatblygu

Dechreuodd y trafodaethau ar gyfer y gynhadledd ym mis Mehefin 2020, gydag Amanda Parker/Inc Arts yn cysylltu â SOLT/UK Theatre ynghylch cynnal sesiwn seiliedig ar weithredu,

a Kobna Holdbrook-Smith a Tali Pelman yn awyddus i ddatblygu strwythur 'gwirionedd a gwella' tebyg i'r broses a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Broadway Advocacy Coalition.

Amanda Parker/Inc Arts oedd arweinwyr y prosiect, gyda chefnogaeth grŵp prosiect craidd yn cynnwys Kobna Holdbrook-Smith, Tali Pelman, Sebastian Cater (UK Theatre) a Miriam Nicholson-Butcher (UK Theatre). Cyflwynwyd aelodau ychwanegol yn rhan o'r tîm wrth i ddyddiadau digwyddiadau'r prosiect agosáu, gan gynnwys Carole Eldrich, Nafeesah Butt a Philip Marken. Recriwtiwyd tîm llawn o staff cefnogi digwyddiadau ar gyfer pob digwyddiad, gyda mwy na 50 o staff cyflogedig yn gweithio ar draws pob un o'r 3 sesiwn yn gyffredinol.

Addaswyd y dyhead cychwynnol i gynnal y gynhadledd ym mis Awst 2020 i fis Hydref/Tachwedd 2020, er mwyn caniatáu amser cynllunio a marchnata prosiect ychwanegol.

Inc Arts oedd yn gyfrifol am fformat cyffredinol y gynhadledd, y cynnwys, y strwythur, y staff, y gweithredu a'r cyflwyno gweithredol, a'r adroddiad gwerthuso hwn.

SOLT/UK Theatre oedd yn gyfrifol am gefnogaeth weinyddol y gynhadledd, codi arian, cysoni'r gyllideb a chyfathrebu'r marchnata i'w haelodau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd prosiect rheolaidd yn ystod y cyfnod hwn, gan weithio o gwmpas argaeledd aelodau'r prosiect, ar adeg pan oedd SOLT/UK Theatre yn gweithredu ar lai o gapasiti oherwydd bod llawer o staff ar ffyrlo yn llawn neu'n rhan amser oherwydd y pandemig.

Penderfynwyd yn eithaf cynnar yn y broses na fyddai sesiynau'r gynhadledd ar gael i'w gweld ar ôl y digwyddiad fel recordiad, i greu lle 'diogel' i'r holl gyfranogwyr, annog pob gweithiwr yn y sector i fynychu pob digwyddiad ar y dyddiadau pan oeddent yn digwydd, ac i greu moment pan oedd y sector cyfan yn canolbwyntio ar un mater pwysig.

Rhan 1: Siarad-Gwranddo

Roedd Rhan 1 y gynhadledd ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y celfyddydau sydd â phrofiad byw o hiliaeth yn unig.

Methodoleg

Dros 2 ddiwrnod mewn pedwar sesiwn ar wahân yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, cyfarfu 400 o weithwyr du, Asiaidd ac ethnig amrywiol y diwydiant mewn cyfres o

gyfarfodydd Zoom, i rannu mewn lle diogel a chyfrinachol eu profiadau o hiliaeth yn y sector.

Drwy ymchwil desg, gwiriwyd y rhai oedd yn cofrestru i fynychu er mwyn sicrhau bod y gofod yn aros yn gyfan gwbl ac yn gyfrinachol ar gyfer pobl â phrofiad byw o hiliaeth.

Rhodddwyd y flaenoriaeth uchaf i gefnogi lles emosiynol yr holl gyfranogwyr: roedd pob sesiwn yn cael ei staffio gan dîm o seicotherapyddion a chwnselwyr, a ddarparwyd gan Chanua Health Services, Lerpwl. Roedd y cyfranogwyr yn gallu archebu sesiynau un i un ymlaen llaw neu ofyn am sesiwn gyda chwnselydd ar unrhyw adeg yn ystod ac yn syth ar ôl y cyfarfod.

Roedd creu gofod cefnogol cyfrinachol yn hanfodol. Roedd yr holl gyfranogwyr yn parchu'r cyfarwyddyd o beidio â mynd ar y cyfryngau cymdeithasol, a oedd yn amod ar fod yn bresennol.

Gwahoddwyd y cyfranogwyr i roi tystiolaeth yn ddiennw ac ar wahân o'r platform zoom, neu'n uniongyrchol i Inc Arts os oedd yn well ganddynt.

Pwysleisiodd y sesiwn bod pawb yn cael bod yn ddiennw: byddai enwau unigolion neu sefydliadau'n cael eu dileu cyn rhannu tystiolaeth mewn manau eraill.

Casglwyd tystiolaeth yn y prif ofod; roedd y gefnogaeth gwnsela un i un yn parhau'n gyfrinachol. Cynigiwyd cefnogaeth iechyd meddwl ychwanegol am ddim i'r holl gyfranogwyr ar ôl y sesiynau tystiolaeth (Rhan 1 o'r gynhadledd), ac ar ôl diwedd y gynhadledd ei hun.

Rhan 2: Gwrando-Ailosod

Roedd yr ail ran yn agored i unrhyw un yn y sector oedd â diddordeb mewn newidiadau ystyrion, ac anogwyd uwch reolwyr, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac aelodau bwrdd o bob rhan o'r sector i fod yn bresennol, ac i ddod gyda meddwl agored.

Methodoleg

Darllenwyd tystiolaeth o Ran 1 gan actorion i sicrhau bod pawb yn cael bod yn anhysbys, a chafodd yr holl nodweddion ac arsylwadau adnabod eu dileu rhag datgelu pwy oedd y rhai a gafodd eu niweidio a'r rhai a oedd wedi achosi niwed.

Chwaraewyd rhagolwg o'r gyfres ffilm newydd gan Blackstage UK (<https://blackstageuk.com/>) i roi gwybodaeth ychwanegol am brofiadau gweithwyr theatr du ac ethnig amrywiol. Mae'r rhagolwg i'w weld yma (<https://youtu.be/u6tWYP7VD14>), ac mae 30 o ffilmiau ychwanegol yn cael eu rhyddhau yn ystod y misoedd sydd i ddod ar eu sianel YouTube (<https://www.youtube.com/channel/UCdVGIexRzN-5IEcQhypFdCQ>).

Roedd y sesiynau'n rhoi strategaethau i unigolion ar gyfer clywed a phrosesu adborth negyddol, ac yn cynnwys strategaethau anadlu ac yn cynnig dulliau gwahanol o wrando ar dystiolaeth a oedd weithiau'n ysgytwol er mwyn ymgysylltu'n llawn â'r cynnwys.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr gadw'r camerâu ymlaen gymaint â phosib a defnyddiwyd y swyddogaeth 'Chat' er mwyn rhannu cyfarwyddiadau drwy gydol y sesiwn. Yn dilyn problemau technegol yn ystod Rhan 2, ni ddefnyddiwyd yr ystafelloedd grŵp, fodd bynnag, defnyddiwyd platfform ychwanegol, Sli.do, yn ystod Sesiwn 3 i'r cyfranogwyr leisio a rhannu cwestiynau, pryderon ac arsylwadau o'r sesiynau. Hefyd defnyddiwyd Sli.do i fesur adweithiau ac ymatebion i awgrymiadau a ffurfiwyd gan dîm Inc Arts o ganlyniad i'r dystiolaeth a rannwyd yn Rhan 1.

Rhan 3: Ailosod-Gwella

Roedd y sesiynau ar gyfer Rhan 3 yn dilyn yr wybodaeth a gafwyd yn Rhan 2. Roedd y sesiynau'n agored i unrhyw un yn y sector sydd â diddordeb mewn newidiadau ystyrlon, a gofynnwyd i uwch reolwyr, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac aelodau bwrdd o bob rhan o'r sector ddarllen drwy restr o awgrymiadau i benderfynu pa rai oeddent yn teimlo y gallent ymrwymo iddynt, ac edrych ar yr amserlen y byddent yn ei hystyried ar gyfer gweithredu.

Pwyntiau Allweddol a Draffodwyd a Materion a Godwyd

Yn ystod Rhan 1, Rhan 2 a Rhan 3 y gynhadledd, seiliwyd y drafodaeth yn gyson ar bum thema. Cafodd y trafodaethau eu grwpio o dan y themâu canlynol:

- Dod yn Rhan o'r sector
- Symud Ymlaen yn y sector (dyrchafiad, a'r math o waith y cymerir rhan ynddo)
- Gofal (pwy oedd wedi gofalu am bwy? Ble fu methiant o ran gofalu?)
- Arweinyddiaeth (effaith arweinwyr, profiadau o arweinyddiaeth, a phrofiadau o fod â rôl arwain)
- Beth Arall? – thema i adlewyrchu ar faterion heb eu cofnodi o dan y 4 thema arall.

Cafwyd ystod eang o ymatebion yn Rhan 1 (tystiolaeth a rannwyd), ac yn Rhan 3 (ymatebion i gamau gweithredu i adlewyrchu arnynt a'u hystyried). Roedd Rhan 2 yn sesiwn ar gyfer gwrando ac adlewyrchu, ac felly ni chafwyd unrhyw ymatebion wedi'u recordio gan y cyfranogwyr. Roedd Rhan 3 yn gyfle i'r cyfranogwyr ofyn cwestiynau'n ddiennw, ac mae rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd gan y cyfranogwyr yn cael eu rhannu yn yr adroddiad hwn.

Fel amod ar rannu cyfrinachau, gwnaethom warantu mai dim ond o fewn y gynhadledd y byddai'r dystiolaeth a gasglwyd yn Rhan 1 yn cael ei rhannu. Yn yr adroddiad gwerthuso hwn mae detholiad cryno o'r mathau o ymddygiadau a phrofiadau a rannwyd gan y cyfranogwyr.

Rhoddodd nifer bach o gyfranogwyr eu caniatâd i'w tystiolaeth gael ei rhannu y tu hwnt i'r gynhadledd – gwelir dyfyniadau o'r dystiolaeth hon ym mhroses Inc Arts Unlock (<https://www.incartsunlock.co.uk/>) ac mae'r datrysiadau a gynigir gan Inc Arts Unlock yn seiliedig ar y cyfoeth helaeth o dystiolaeth a rannwyd.

Dod yn Rhan

Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Ymddygiad amhriodol yn ystod ac ar ôl cyfweliad; gan gynnwys
- Cael eu galw i gyfweliad i sicrhau bod o leiaf un person nad yw'n wyn yn cael ei gyfweld – ond yn y cyfweliad gofynnwyd cwestiynau'n ymwneud ag ethnigrwydd ac nid sgiliau, drwodd i
- Y panel cyfweld yn mynegi syndod wrth i ni gerdded i mewn i'r clyweliad neu'r ystafell gyfweld, am nad yw ein henwau'n datgelu ein hethnigrwydd
- Peidio â ffarwelio ar ddiwedd y cyfweliad oherwydd diffyg ymgysylltu â'r cyfwelai
- Holi llawer iawn am wybodaeth am ein hethnigrwydd – ac wedyn datblygu'r syniadau hynny drwy eraill heb brofiad byw
- Rhannu adborth am ymgeisydd ddim yn 'addas iawn' yn hytrach nag ystyried sut i wneud y gweithle'n fwy cynhwysol i bawb
- Cael gwahoddiad i dderbyn swydd nad yw ymgeiswyr wedi gwneud cais amdani ac nad yw'n cyfateb i sgiliau na phrofiad, oherwydd bod sefydliadau angen help i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol. Gan mai'r cyfan a ystyrir yw ethnigrwydd yr ymgeisydd.

Symud Ymlaen

Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- Peidio â buddsoddi mewn datblygu sgiliau – a gofyn i ymatebwyr hyfforddi eraill a blaenoriaethu'r buddsoddiad i eraill
- Rhewi neu ddirnstrio gyrfaedd drwy siarad yn erbyn hiliaeth
- Gwahoddiadau i weithio – lle mae angen ethnigrwydd a chyfyngu unigolion i'r gwaith hwn (a diffyg ymgysylltu y tu hwnt i hyn)
- Soniodd yr ymatebwyr am ddechrau eu gwaith eu hunain, oherwydd rhwystredigaeth gyda diffyg asiantaeth, datblygiad neu gynydd o ran cynigion artistig prif ffrwd, ac adlewyrchu ar y syndod a fynegwyd gan sefydliadau prif ffrwd ynghylch pam nad yw eu gwaith yn denu cynulleidfaoedd ehangach
- Gweithio gydag unigolion dros nifer o flynyddoedd, ond byth yn eu gwneud yn staff
- Datblygiad a chyfleoedd yn cael eu cynnig i bobl sy'n edrych fel eu rheolwyr o ran ethnigrwydd a thebygrwydd
- Triniaeth wael
- Sefydliadau sy'n dechrau drwy gael eu harwain yn amrywiol, ac wedyn yn cael eu rheoli gan arweinwyr gwyn.

Gofal

- Rhannwyd enghreifftiau o gam-drin, camdriniaeth, diystyru dideimlad, ymddygiad hiliol ac amhriodol, rhagfarnau amlwg ac ymhlyg gyda'r grŵp.
- Roedd llawer hefyd yn rhannu tystiolaeth o ffyrdd amhriodol o ymdrin â chwynion ac anfodlonrwydd, ac ystyriaeth amhriodol i sbarduno anwybodaeth a gelyniaeth.

Arweinyddiaeth

- Diffyg arweinyddiaeth wrth fynd i'r afael â chwynion
- Arweinwyr yn ymddwyn yn amhriodol
- Arweinwyr yn mynnu tystiolaeth ac yn blaenoriaethu safbwyntiau'r rhai tebyg iddynt hwy eu hunain
- Diffyg ymgysylltu â, hyder mewn, a pharch at arweinwyr amrywiol

Beth arall?

Roedd y thema 'Beth arall' yn galluogi i ymatebwyr rannu unrhyw agwedd ar eu profiad nad oedd eisoes wedi'i chynnwys. Roedd y materion a gododd yma yn cynnwys y canlynol:

- hyfforddiant
- cydymdeimlad a gwyliau cydymdeimladol
- cwynion a gwrandawiadau
- a phrosesau cyllido a chanlyniadau.

Roedd yr adlewyrchu arall a rannwyd yn yr adran hon yn cynnwys y canlynol:

- Cyfeillion sy'n cymryd y gofod ac yn priodoli
- Y rhai sy'n dweud eu bod eisiau creu newid – ond sydd eisiau rheoli'r broses, a gweithredu fel ceidwaid, gan wrthod unrhyw beth nad yw'n cyd-fynd â'u barn am sut dylai cynhwysiant edrych am nad yw'n gyfforddus
- Pobl sy'n rhoi eu hunain yng nghanol y naratif heb greu gofod mewn gwirionedd
- Pan nad yw eraill yn blaenoriaethu lliniaru niwed – ond yn parhau i ddisgrifio eu hunain fel cyfeillion
- Esgus cefnogi EDI – *a pharhau ag ymddygiadau sy'n arwain at niweidio pobl ethnig amrywiol.*

Dadansoddiad o'r Broses: Rhan Un: Siarad-Gwranddo

Roedd y broses yn seiliedig ar ofal, urddas, parch a chyfrinachedd ym mhob cam o'r broses, ac i bawb a oedd yn gysylltiedig waeth beth oedd eu hethnigrwydd, eu statws neu eu hanes.

Roedd y broses o adolygu hunaniaeth ethnig y cyfranogwyr drwy ymchwil desg hefyd yn cael ei chwblhau'n ofalus: o'r 8 o bobl y cysylltwyd â hwy i gadarnhau a oedd ganddynt brofiad byw o hiliaeth (ac felly'n gymwys i fynychu'r sesiwn tystiolaeth caeedig), dim ond un oedd o dreftadaeth ethnig amrywiol ac yn gwrthwynebu'r cwestiynau a'n tybiaeth anghywir am ethnigrwydd. Y rheswm dros y camgymeriad oedd bod gan yr ymatebydd yr un enw, ac yn gweithio yn yr un sector, â pherson arall a ddaeth i'r amlwg yn yr ymchwil desg nad oedd yn amrywiol o ran ethnigrwydd). Roedd y 7 ymatebydd arall yn parchu ac yn diolch i'r tîm am eu gwirio a'u hailgyfeirio i weddill y gynhadledd.

Mae pwysigrwydd sgysiau grŵp caeedig a chyfrinachol ynghylch niwed yn broses sefydledig ar gyfer canfod gwybodaeth ddyfnach heb achosi trawma pellach. Ychwanegwyd at y broses hon gan y gofal a ddarparwyd yn ystod y sesiwn gan seicotherapyddion a chwyselwyr.

Roedd dehongliad BSL ac isdeitlo byw ar gael drwy gydol pob sesiwn.

Adlewyrchu ar Gynnwys a Darpariaeth

Oherwydd y pandemig byd-eang, roedd angen cynnal y gynhadledd ar-lein, gyda Zoom yn cael ei ddewis fel platfform darparu gan ei fod yn gost-effeithiol, yn cael ei ddefnyddio'n eang, ac mae ganddo ystod o swyddogaethau i gefnogi mynediad.

Ar gyfer pob digwyddiad, recriwtiwyd tîm cefnogi digwyddiad llawn, gan gynnwys Dehonglwyr BSL, Cynorthwywyr y Digwyddiad, Hwyluswyr a Chefnogaeth Dechnegol.

Sefydlwyd yn wreiddiol mai'r fformat ar gyfer cyflwyno fyddai:

- Rhan 1: un cyfarfod gyda grwpiau ar gyfer cyfranogwyr du, Asiaidd ac ethnig amrywiol yn unig.
- Rhan 2: un weminar ar raddfa fawr ar gyfer unrhyw un ar draws y diwydiant i glywed y dystiolaeth a rannwyd yn ystod Rhan 1
- Rhan 3: pum cyfarfod olynol gyda grwpiau ar gyfer unrhyw un ar draws y diwydiant i ystyried sut byddent yn gweithredu i greu cynhwysiant, ac ymrwymo i weithredu.

Esblygodd y fformat yn gyflym yn ystod y broses ddatblygu fel ymateb i anghenion y cynnwys ac oherwydd y galw cynyddol o bob rhan o'r diwydiant am fynychu'r digwyddiad.

Wedyn cafodd y fformat cyflwyno ei ailsefydlu fel a ganlyn:

- Rhan 1: pedwar cyfarfod gyda grwpiau ar gyfer cyfranogwyr du, Asiaidd ac ethnig amrywiol yn unig
- Rhan 2: dau Gyfarfod Mawr gyda grwpiau ar gyfer unrhyw un ar draws y diwydiant i glywed y dystiolaeth a rannwyd yn ystod Rhan 1
- Rhan 3: dau Gyfarfod Mawr gyda grwpiau ar gyfer unrhyw un ar draws y diwydiant i ystyried sut byddent yn gweithredu i greu cynhwysiant, ac ymrwymo i weithredu.

Roedd angen cyfarfodydd ychwanegol yn Rhan 1 i ddarparu ar gyfer y niferoedd mawr yn bresennol, gan gynnal gofal a chefnogaeth yn greiddiol wrth rannu tystiolaeth.

Roedd rhoi'r amser a'r gefnogaeth fel hyn yn gwbl angenrheidiol i gyfranogwyr Rhan 1, ond cynyddodd y dewis hwn y costau o'r gyllideb gychwynnol o £900 i bron i £4,000 ynghyd â mwy nag £8,000 o gymorth cwnsela. Roedd gan hyn oblygiadau wedyn o ran gwneud penderfyniadau ar gyfer Rhan 2 a Rhan 3.

Gwnaed y dewis i gyflwyno Rhan 2 a Rhan 3 ar 'Large Meetings' Zoom i alluogi i fideo pob cyfranogwr gael bod ymlaen. Y bwriad oedd sicrhau bod lefel yr ymgysylltu mor uchel â phosibl, bod cyn lleied o dynnu sylw â phosibl, ac i sicrhau bod y rhai a gafodd y niwed mwyaf yn gallu arsylwi'r ymgysylltu er mwyn anrhydeddu eu haelioni yn rhannu tystiolaeth ar gost emosiynol enfawr iddynt.

Bwriad y 3 awr a neilltuwyd ar gyfer pob sesiwn oedd rhoi digon o amser a lle ar gyfer dysgu a deall, gyda sesiynau grŵp wedi'u cynllunio i helpu i feithrin hyder wrth siarad am hiliaeth mewn grwpiau perthynas cymysg a grwpiau profiad cymysg.

Fodd bynnag, oherwydd y gallai'r niferoedd godi'n uwch na'r 1,000 o gyfranogwyr mae Cyfarfod Mawr Zoom yn eu caniatáu, gyda dim ond ychydig wythnosau tan y cyflwyno, roedd angen datrysiaid i groesawu niferoedd mawr o bobl, gan fod yn ymwybodol y byddai sesiynau ychwanegol yn golygu costau ychwanegol staff digwyddiadau, a bod ganddynt y potensial i fynd dros y gyllideb a neilltuwyd.

Penderfyniad tîm y prosiect oedd rhannu Rhan 2 yn ddau sesiwn 1.5 awr ac amserlennu sesiwn tair awr ychwanegol yn Rhan 3. Roedd y penderfyniad hwn yn galluogi'r tîm i ddarparu ar gyfer pawb a oedd eisiau mynychu'r digwyddiad ac i'r gynhadledd gael ei chyflwyno gan gadw at y gyllideb (o gofio'r costau a gronnodd o ehangu'r sesiynau a gynhaliwyd yn Rhan 1).

Dylid nodi bod lleihau'r amser a neilltuwyd i 'adlewyrchu' yn Rhan 2 wedi dylanwadu ar gyflymder y dysgu sy'n ofynnol gan y cyfranogwyr, cyflwyno'r cynnwys a gallu'r cyfranogwyr i ddod i ddealltwriaeth lawn ac adlewyrchu ar y niwed a achoswyd gan eu gweithredoedd hwy a gweithredoedd pobl eraill.

Cafwyd problemau technegol yn ymwneud â chapasiti ac ystafelloedd grŵp ar ddechrau Rhan 2. Nid oedd ychwanegiad Cyfarfod Mawr Zoom a'r ystafelloedd grŵp ychwanegol (o 50 i 100 o ystafelloedd) yn gweithio, er y talwyd amdanynt ymlaen llaw ac er gwaethaf treulio cryn amser gyda chymorth technoleg Zoom i'w sefydlu. O ganlyniad, ad-dalwyd y taliad am y swyddogaethau oedd yn gwrthod gweithio gan Zoom.

Cafodd y gynhadledd ei hatal, a chafodd y cyfranogwyr eu hanfon i ddolen Zoom arall, yn ogystal â chael cynnig ysgogiadau cofnodi dan arweiniad yn hytrach na gofod grŵp. Dewiswyd hefyd i osgoi cyfarfodydd grŵp yn Rhan 3 a dibynnu ar Sli-do ar gyfer rhyngweithio.

Yn anffodus, ailadroddwyd y broblem capasiti yn ystod Rhan 3, felly unwaith eto anfonwyd dolen Zoom arall at y cyfranogwyr ar y diwrnod.

Roedd y fformat a gyflwynwyd yn cynnwys y canlynol:

- Rhan 1: pedwar cyfarfod gyda grwpiau ar gyfer cyfranogwyr du, Asiaidd ac ethnig amrywiol yn unig
- Rhan 2: dau gyfarfod mawr gyda grwpiau ar gyfer unrhyw un ar draws y diwydiant i glywed y dystiolaeth a rannwyd yn ystod Rhan 1
- Rhan 3: dau gyfarfod mawr, gyda chefnogaeth Sli-do, i'r cyfranogwyr ystyried sut byddent yn gweithredu i greu cynhwysiant, ac ymrwymo i weithredu.
- Ar ôl y gynhadledd, cynhaliodd Inc Arts 3 x sesiwn 1.5 awr ychwanegol yn ystod yr wythnosau canlynol a oedd yn agored i'r sector ehangach i gynorthwyo gyda dysgu a dealltwriaeth, ac i liniaru colli cyfle i adlewyrchu mewn ystafelloedd grŵp. Mynychwyd y cyfarfodydd hyn gan tua 40 o bobl a chawsant dderbyniad da iawn.

Cafodd y gynhadledd ei llunio a'i chynllunio wrth i'r wlad fynd i ail gyfyngiadau symud cenedlaethol. Mae darparu digwyddiad digidol yn unig, ar raddfa fawr o dan yr amgylchiadau hyn, wedi bod yn brofiad dysgu i bawb sy'n gysylltiedig, o dîm y prosiect i'r cyfranogwyr. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio fel sail i unrhyw brosiectau, digwyddiadau a gwaith parhaus pellach. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi edrych y tu hwnt i broblemau technegol i ymgysylltu'n gadarnhaol gyda dealltwriaeth a mynd i'r afael â'r materion.

Mae'r dysgu'n cynnwys y canlynol:

- Cynnwys amser ychwanegol i ymchwilio a phrofi ymarferoldeb technegol
- Gwneud dewisiadau ynghylch cynnwys a darpariaeth i gyd-fynd â capasiti tîm y digwyddiad (neu gyllidebu ar gyfer staff arbenigol ychwanegol)
- Pennu cylch gorchwyl ar gyfer darparu o'r dechrau un
- Sicrhau bod ymddiriedaeth, cyfathrebu a rhannu ffyrdd o weithio ar waith, yn enwedig i dîm cyflwyno sy'n gweithio o bell.

Presenoldeb

Cyfarfu 400 o weithwyr diwydiant du, Asiaidd ac ethnig amrywiol mewn cyfres o gyfarfodydd Zoom dros 2 ddiwrnod mewn pedwar sesiwn ar wahân yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd ar gyfer Rhan 1.

Archebodd mwy na 1,300 o bobl le yn Rhannau 2a a 2b, a mwy na 1,300 o bobl ar gyfer Rhannau 3a a 3b.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol o'r sector theatr yn cynnwys uwch arweinwyr (Cyfarwyddwyr Artistig/Cyfarwyddwr Cynorthwyol/Prif Weithredwr ar y Cyd, Prif Weithredwyr/Prif Swyddogion Masnachol, Cyfarwyddwyr Cwmni, Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chadeiryddion Bwrdd/Ymddiriedolwyr).

Roedd y cwmnïau a'r sefydliadau wedi'u cyllido o Loegr a oedd yn cael eu cynrychioli yn cynnwys ATG, Almeida, Birmingham Hippodrome, Bristol Old Vic, Curve Leicester, Delfont Mackintosh Theatres, donmar warehouse, English National Opera, Frantic Assembly, Fuel, Headlong, Hull Truck, Kenny Wax Ltd, Kiln Theatre, Leeds Playhouse, LIFT, Liverpool Everyman & Playhouse Theatres, Lyric Hammersmith, LW Theatres, Marlowe Theatre, National Theatre, Neal Street Productions, New Adventures, Newcastle Theatre Royal, Nimax Theatres, Nottingham Playhouse, Playful Productions, Royal Exchange Theatre, Sadler's Wells, Southbank Centre, Sonia Friedman Productions, The Old Vic, ac Yvonne Arnaud Theatre.

Roedd y cwmnïau a'r sefydliadau wedi'u cyllido o Gymru a oedd yn cael eu cynrychioli yn cynnwys Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Creu Cymru, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, National Theatre Wales, Theatr y Sherman, Theatr Colwyn, Venue Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru.

Roedd y cwmnïau a'r sefydliadau wedi'u cyllido o'r Alban a oedd yn cael eu cynrychioli yn cynnwys Cymdeithas Gŵyl Fringe Caeredin, Gŵyl Ryngwladol Caeredin, National Theatre of Scotland a Pitlochry Festival Theatre.

Roedd y sefydliadau/cwmnïau dawns a oedd yn cael eu cynrychioli yn cynnwys Birmingham Royal Ballet, Boy Blue, Candoco, Dance Base Scotland, Dance Umbrella, Dance East, East London Dance, English National Ballet, Hofesh Shechter Company, New Adventures, Northern Ballet, Phoenix Dance Theatre, Royal Ballet, Siobhan Davies Dance, South East Dance.

Roedd y Colegau Drama a oedd yn cael eu cynrychioli yn cynnwys Guildford School of Acting, Mountview, RADA, Royal Central School of Speech & Drama, a'r Royal Conservatoire yn yr Alban.

Adolygu'r canlyniadau

Roedd yr adborth o'r sesiwn yn adlewyrchu bod y sesiynau'n cynnig y canlynol i'r grŵp ethnig amrywiol:

- Catharsis – cyfle i gael eu clywed a chydabod eu profiadau
- Brawdgarwch – gwybod nad oedd eu profiadau yn ynysig
- Cefnogaeth iechyd meddwl – drwy sesiynau un i un a chefnogaeth ar ôl y gynhadledd drwy Inc Arts Minds, mewn partneriaeth â Chanua Health
- Cefnogaeth – gan eraill yn y sesiwn, dilysu profiadau a chynnig cydnabyddiaeth o sgiliau, profiad a thalent.

Ar gyfer y sector ehangach roedd y sesiynau'n cynnig y canlynol:

- Enghreifftiau penodol a chyffredinol o sut beth yw hiliaeth pan nad yw'n agored
- Dealltwriaeth o sut mae systemau a phrosesau'n cael effaith negyddol ar bobl greadigol ethnig amrywiol
- Cyfleoedd i ddechrau'r broses o ddeall sut i gymryd camau gwrth-hiliol effeithiol.

Roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben o ran cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r ffordd mae hiliaeth yn amlygu ei hun, a sut i gymryd camau gwrth-hiliol.

Adborth o Sesiwn 1: Pa agwedd ar y sesiwn oedd o werth mwyaf i chi?

Clywed straeon pobl am sut rydyn ni'n rhannu cymaint ac ar draws cefndiroedd a diwylliannau. Yr ymatebion adeilad diogel gan y person yn hwyluso – teimlo wedi fy hudo ganddi!

Clywed, gwrando, cael eich clywed, y gofal a gymerwyd, y gofal a ddangoswyd gan drefnwyr y digwyddiad.

Cael y cyfle i weld a chlywed gan bobl dduon eraill yn y diwydiant a gwybod nad ydw i ar fy mhen fy hun.

Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi clywed profiadau eraill a gwybod nad fi oedd yr unig un oedd yn profi hyn. Sawl gwaith pan mae digwyddiadau wedi digwydd, fel yr unig berson lliw yn yr ystafell dydw i ddim wedi meddwl erioed gofyn i gydweithwyr a ydyn nhw wedi cael profiadau tebyg mor agored tan eleni!

Wrth glywed tystiolaeth pobl eraill, fe wnaeth i mi ymgysylltu ag ehangder yr her a gweld y problemau systematig ehangach sydd angen newid, ac mae gwybod bod cyfeillion mor bwerus. Rydw i'n gwerthfawrogi'n fawr sut gwnaeth [Inc Arts] gynnal y gofod gyda chymaint o gydymdeimlad; roedd yn gwneud i mi deimlo'n ddigon diogel i rannu stori.

Creu lle i ni rannu ein profiadau a chofleidio ein gilydd ar y cyd. Er ein bod yn ddieithriaid, rydym yn debyg ac roedd gallu bod mewn lle yn gallu clywed ein gilydd, roeddwn i'n meddwl ei fod o werth anhygoel.

Trafodaeth y prif grŵp. A all y trafodaethau hyn barhau plŷs? Roedd mor wych gallu gweld bod cynifer ohonom ni. Erioed wedi gweld cymaint o POC o'r blaen.

Clywed eraill yn rhannu gan eich bod yn credu mai dim ond chi sy'n cario'r cywilydd.

Gwrando ar bawb. Teimlo nad ydw i ar fy mhen fy hun. Gallu uniaethu ag eraill sy'n mynd drwy'r un peth am y tro cyntaf ers 10 mlynedd o fod yn y sector

Teimlo'n rhan o gymuned a oedd yn deall y problemau.

y sylw olaf un am ddal sefydliadau yn atebol, yn enwedig ar adeg pan maen nhw wedi adweithio'n ddigymell i'r mudiad BLM yn y DU.

Y cyfle i siarad heb orfod esbonio popeth yn ei gyd-destun i gynulleidfa nad oes posibl iddynt ddeall. Nid yw cael eich deall mewn cyd-destun cyn i chi siarad yn norm.

Roedd yn werthfawr clywed gan bobl eraill sy'n profi hiliaeth sydd mewn gwahanol gamau yn eu bywydau a'u gyrfaedd am ei fod wedi fy helpu i deimlo'n bwerus nad fy mhroblem 'i' yw hi.

Adborth o Sesiynau 2 a 3

Menter bwysig a byddwn yn elwa llawer o'r sgwrs hon fel diwydiant cyfan.

Diolch am y sesiwn heddiw. Roedd yn wych, yn heriol a chafodd ei gyflwyno'n dda iawn.

Roedd cynnwys y sesiwn yn wirioneddol graff ac effeithiol.

Llongyfarchiadau ar ddiwyddiad anhygoel! Mor bwerus. Rwy'n llawn cyffro am hyn a ble fydd yn arwain. Gwaith anhygoel iawn, ac mor, mor bwysig.

Cafodd negeseuon pwysig eu cyflwyno ac roedd y bobl iawn yn eu clywed. Mae'n gosod y sefyllfa ar gyfer newid ac rydw i'n credu ein bod ni wedi dechrau arni. Nawr i weld sut rydyn ni'n gweithredu ar hyn.

Un elfen gyffredinol bositif oedd lefel y presenoldeb a'r ymgysylltu yn y sesiwn, sy'n dangos bod uchelgais a rennir ar draws llawer o'r diwydiant, ac mae ei angen yn ddybryd er mwyn creu newid gwirioneddol.

Adborth o Sesiynau 3

Holwyd y cyfranogwyr pa gamau gweithredu oedd y rhai pwysicaf i'w rhoi ar waith yn eu barn hwy. Roedd yr adnodd pleidleisio, Sli.do, hefyd yn galluogi i'r cyfranogwyr gyflwyno cwestiynau a sylwadau'n ddiennw. Isod ceir detholiad o'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae cwestiynau ynghylch defnydd ymarferol wedi'u cyflwyno a'u hateb os oedd hynny'n bosibl yn fframwaith atebolrwydd Unlock.

Sut gallaf i ymrwymo i arallgyfeirio Uwch Dîm Arwain os nad oes staff yn gadael? Dydw i ddim yn siŵr pa mor ddamcaniaethol ydych chi eisiau i fy atebion fod?

Fe hoffwn i glywed enghreifftiau o sefydliadau neu unigolion sydd wedi cael rhywfaint o lwyddiant ar y siwrnai at y nodau hyn, fel y gallwn ddyysgu o arfer da

Mae rhai syniadau ardderchog yma ... ond ar gyrion y wlad lle mae'r diaspora yn gyfyngedig, mae ymarferoldeb rhai i'w gwestiynu.

Mae angen ystyried gwahaniaethau rhanbarthol mewn demograffeg a chymunedau ar gyfer targedau amrywiaeth.

Dydw i ddim yn siŵr a ddylid defnyddio atebion i bleidlais ymateb cyflym fel hon mewn adroddiad sy'n dal pobl yn atebol yn y dyfodol.

Pam rydyn ni i gyd yn ymgynnull i lenwi holiadur y gallem ei lenwi yn ein hamser ein hunain, yn enwedig gan nad ydyn ni'n trafod dim ohono?

Rydw i'n ystyried fy hun yn rhywun sydd â phrofiad eithaf o ddarllen ac ymateb i awgrymiadau polisi ond hyd yn oed gyda'r profiad hwnnw rydw i'n ei chael yn anodd cadw i fyny.

Wrth geisio lleihau hiliaeth a'i niwed, mae anabledd yn cael ei anwybyddu'n fawr. Nid dyma fy mhrofiad cyntaf i o'r fath beth, sy'n gwaethygu.

eisiau gwybod mwy am sut i amddiffyn cwmni amrywiol wrth ymweld â rhan heb fod yn amrywiol o'r wlad.

'Rhannu swyddi gyda rhwydweithiau ethnig amrywiol 24 awr cyn i chi hysbysebu mewn mannau eraill ' - beth mae hyn yn ei wneud?

Os yw'n sefydliad mawr, tybed a oes ffyrdd y gallaf ymrwymo i geisio dylanwadu yn hytrach nag ymrwymo i wneud iddo ddigwydd (oherwydd bod llawer o swyddogaethau allan o fy nwylo i!)

Byddai gen i ddiddordeb mewn clywed mwy am y lluniau yn ystod y cam cyfweld, nid wyf wedi dod ar draws hyn o'r blaen.

Trist iawn mai Amherthnasol yw llawer o fy atebion. Mae hyn yn amlygu sut mae llawer o fy rhwystredigaethau a'r cam-drin sy'n digwydd i mi yn systemig iawn ac wedi'u gwreiddio mewn swyddi o bŵer.

Mae rhai o'r sylwadau isod yn dangos yn union pam mae arnom ni angen trafodaethau fel hyn a bod angen clir i BAWB ddeall amrywiaeth a gwahaniaethu!

Rhan 3: Ailosod-Gwella: beth wnaeth pobl ymrwymo iddo ar y diwrnod?

Dyfeisiwyd rhan olaf y gynhadledd fel cyfle i gael y sector i wneud ymrwymadau pendant, penodol a mesuradwy i newid.

Yn dilyn adborth gan grŵp y prosiect na fyddai arweinwyr y sector sy'n mynychu'r gynhadledd yn gallu ymrwymo i unrhyw gamau gweithredu ar y diwrnod heb ymgynghori â'u timau, roedd y sesiwn hwn wedyn yn canolbwyntio ar rannu enghreifftiau o'r mathau o gamau gweithredu y gallai unigolion a sefydliadau eu rhoi ar waith, a mesur yr ymatebion i'r awgrymiadau drwy arolygon barn a gynhaliwyd ar Sli.do.

Gofynnodd yr arolygon barn i'r cyfranogwyr ddewis camau gweithredu a oedd bwysicaf yn eu barn hwy i'r sector eu gweithredu ar unwaith, a hefyd mynegi'r hyn y byddai unigolion yn ymrwymo iddo ar unwaith.

Drwy beidio ag ymrwymo unigolion i weithredu, daeth trydedd rhan y gynhadledd yn arbrawf ar gyfer yr hyn sydd bellach wedi'i ymgorffori yn Inc Arts Unlock.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol ystyried newidiadau yn ymwneud ag arferion recriwtio a llogi, llwyfannu gwaith, cefnogaeth i bobl ethnig amrywiol, a darparu cefnogaeth iechyd meddwl a phrosesau adborth sy'n gyfrinachol ac yn cael eu harwain gan amrywiaeth.

Gofynnodd yr arolygon barn i'r cyfranogwyr ddewis camau gweithredu a oedd bwysicaf yn eu barn hwy i'r sector eu gweithredu ar unwaith, a hefyd mynegi'r hyn y byddai unigolion yn ymrwymo iddo ar unwaith.

Daeth trydedd rhan y gynhadledd yn arbrawf ar gyfer yr hyn sydd bellach wedi'i ymgorffori yn Inc Arts Unlock.

Nid oeddem yn gallu ymrwymo unigolion i weithredu yn ystod y gynhadledd gan fod ymrwymadau o'r natur yma i gael eu hystyried gan y Bwrdd a'r uwch dîm rheoli. Fodd bynnag, drwy bleidleisio, roeddem yn gallu penderfynu ar ddyhead am newid, a blaenoriaeth ar gyfer camau gweithredu. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i siapia Inc Arts Unlock.

Mae Inc Arts Unlock wedi casglu'r datganiadau, yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan sefydliadau ethnig amrywiol dros yr haf a'u trosi'n gamau gweithredu CAMPUS. I'w lansio ddiwedd mis Mawrth 2021, mae'n broses sy'n adeiladu ar y gynhadledd ac yn darparu camau tryloyw, cyfrinachol a mesuradwy i sefydliadau ac unigolion eu cymryd i wneud newid gwrth-hiliol. Mae'n ganlyniad uniongyrchol a chynhwysfawr i'r gynhadledd.

Mae Unlock yn cynnig mwy na 150 o gamau gweithredu i sefydliadau eu cymryd – yn amrywio o gamau gweithredu sydd angen fawr ddim adnoddau i gamau gweithredu a fydd yn gofyn am adnoddau, amser a newid sylweddol mewn ymddygiad i'w cyflawni. Mae hefyd yn cynnig cyfle i sefydliadau ychwanegu manylion am y camau maent yn eu cymryd nad ydynt eisoes wedi'u rhestru yn yr awgrymiadau. Mae hon yn rhan werthfawr o'r broses oherwydd dros amser byddwn yn adeiladu ac yn rhannu astudiaethau achos i eraill ddysgu oddi wrthynt, a'u defnyddio i greu newid cynaliadwy.

Mae'n broses sydd, fel y gynhadledd, yn cael ei gweithredu heb farn na cherydd. Yr hyn sy'n bwysig yw y gall unrhyw sefydliad gymryd rhan yn hyderus, fel ei bod yn bosibl gweld newid ar draws y sector.

Bydd Unlock yn adlewyrchu gwerthoedd y gynhadledd gwrth-hiliaeth drwy sicrhau cyfrinachedd, anhysbysrwydd a hyrwyddo newid cadarnhaol drwy gydol y broses. Mae profiad cadarnhaol cyfranogwyr y gynhadledd yn dangos y parch mawr sydd gan Inc Arts at osod ymddiriedaeth, urddas a chyfrinachedd wrth galon popeth rydym yn ei wneud.

Mae'n bwysig i gymaint o sefydliadau â phosibl gymryd rhan ym mhroses Unlock fel ein bod yn gallu helpu pob sefydliad os oes angen, a dathlu symudiad ledled y DU tuag at newid, mewn ffordd sy'n gwneud monitro ac atebolrwydd yn broses garedig, gadarnhaol a chefnogol.

Camau gweithredu ar gyfer y sectorau theatr aawns

Mae Inc Arts Unlock (<https://www.incartsunlock.co.uk/>) wedi casglu'r datganiadau, yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan sefydliadau ethnig amrywiol dros yr haf a'u trosi'n gamau gweithredu CAMPUS.

I'w lansio ddiwedd mis Mawrth 2021, mae'n broses sy'n adeiladu ar y gynhadledd ac yn darparu camau tryloyw, cyfrinachol a mesuradwy i sefydliadau ac unigolion eu cymryd i wneud newid gwrth-hiliol. Mae'n ganlyniad uniongyrchol a chynhwysfawr i'r gynhadledd.

Mae mwy na 150 o opsiynau i'w hystyried yn Unlock, ac mae'r rhan fwyaf angen i arweinwyr fod ag amser i ystyried ac ymgynghori â'u timau. Drwy ddefnyddio Unlock gwahoddir sefydliadau i gael cefnogaeth gyda phennu nodau, nodau sefydliadol a'u galluogi i bennu amserlenni 3 mis, 6 mis, 18 mis neu hwy ar gyfer creu newid.

Mae'r broses hefyd yn cynnwys astudiaethau achos, gwybodaeth ddeddfwriaethol berthnasol (yn gysylltiedig â'r Ddeddf Cydraddoldeb a chyfraith cyflogaeth) sy'n rhoi sylw i'r ymatebion a gafwyd yn ystod Rhan 3 y gynhadledd.

Yn bwysicaf oll, drwy gytuno i broses gyfrinachol Unlock, gall sefydliadau gael cefnogaeth gan dîm Inc Arts i ddatblygu nodau, a gellir creu darlun o ymgysylltiad EDI ar draws y sector dros amser, gan alluogi i sefydliadau unigol hunangymharu eu cynnydd eu hunain yn erbyn cynnydd y sector ehangach.

Mae'r enghreifftiau isod yn gamau gweithredu Lefel 1 a 2 – sy'n gofyn mewn rhai achosion am ailddyrrannu adnoddau

RECRUITIO

- Hysbysebu pob rôl y tu hwnt i'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol a'ch gwefan arferol.
- Nodi yn eich hysbysebion eich bod yn ad-dalu costau unrhyw un sy'n cael ei gyfweld - ac yn darparu doler i'w hawlio pan fyddwch yn rhoi gwybod i bobl am ganlyniad cyfweliad.

GWAITH

- Datganoli ac arallgyfeirio dyletswyddau o fewn swyddi presennol: ystyriwch sut gallwch ddarparu cyfleoedd i unigolion arwain ar brosiectau o fewn meysydd busnes.
- Pennu targedau cynhwysiant ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â recriwtio.

POLISI

- Sicrhau bod eich polisiau gwrth-hiliaeth yn cael eu creu/adolygu gan y rhai sydd â phrofiad byw o hiliaeth.

CYLLID

- Neilltuo darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer gwaith EDI rheolaidd.
- Darparu cyfleoedd arweinyddiaeth i ymgeiswyr ethnig amrywiol ar gyfer swyddi canol gyrfa gyda chodiad cyflog cymesur ar brosiectau.

Y gyllideb a chodi arian

Cyllideb wreiddiol y prosiect oedd £46,000, a chostau terfynol y prosiect oedd £44,756.29, yn rhannu fel a ganlyn:

- Rhan 1: £3,923.18
- Rhan 2: £2,930.00
- Rhan 3: 2,049.15
- Cefnogaeth iechyd meddwl (Inc Arts Minds): £8,690.00
- Costau technegol, cyfreithiol a chyfieithu: £7,313.96
- Ffi rheoli a hwyluso prosiect Inc Arts: £6,950.00
- Cefnogaeth rheoli prosiect: £3,900.00
- Ffi Ymchwil a Datblygu Inc Arts: £6,600.00
- Adroddiad Gwerthuso (Inc Arts): £2,400

Er mwyn sicrhau bod y gynhadledd yn hygyrch i bawb, penderfynwyd y byddai'r gynhadledd am ddim i'w mynychu. I gydnabod y materion oedd yn cael eu trafod, anogwyd y cyfranogwyr i wneud cyfraniad gwirfoddol at Inc Arts Minds, cronfa gefnogi ar gyfer lles emosiynol gweithlu theatr a dawns ethnig amrywiol y DU.

O ganlyniad, codwyd costau llawn y gynhadledd o £46,000 gan SOLT/UK Theatre a Tali Pelman. Mae trefnwyr y gynhadledd yn diolch i bawb a gefnogodd y fenter hon. Gweler isod am restr llawn o noddwyr.

Talwyd i bawb a oedd yn ymwneud â chyflwyno'r Gynhadledd, gan gynnwys y cadeiryddion/hwyluswyr, yr actorion yn darllen tystiolaeth, yr isdeitlwyr, Dehonglwyr BSL, ysgrifenyddion, rheolwyr prosiect a chwyselwyr.

Diolch

Gwnaed y gynhadledd yn bosibl drwy gefnogaeth hael noddwyr a phartneriaid, a'r ymdrechion enfawr a wnaed gan Dîm SOLT/UK Theatre, a thîm Inc Arts a gweithwyr llawrydd. Diolch i bawb a'i gwnaeth yn bosibl.

Conference Major Sponsors



Tali Pelman



Conference Sponsors



Conference Partners



